

### **23 - Nefyn i Dowyn (Tudweiliog) 6.8 milltir/11 km**

O ganol Nefyn cymerwch ffordd Pen-y-Bryn (gydag arwyddion i Aberdaron). Pasiwch Eglwys Dewi Sant ar y dde (Gwesty Nanhoron ar y chwith). Cymerwch yr ail ffordd i'r dde – Lôn y Traeth; yn y fan lle mae'r ffordd yma'n dechrau mynd i lawr yn serth gallwch ei dilyn a cherdded ar hyd y traeth, neu gallwch droi am y chwith i lwybr gydag arwydd (Llwybr Arfordir Cymru / Taith y Pererin). Mae hwn yn dilyn pen y glogwyn i Benrhyn Nefyn (a welwch o'ch blaen) ac yn parhau i Forfa Nefyn lle byddwch yn mynd i lawr stepiau i'r llithrffordd at y traeth.

#### **Mae dau lwybr posibl o'r fan yma.**

Mae'r daith hirach a mwy heriol yn eich cymryd ar hyd y traeth i Borth Dinllaen, heibio i orsaf y bad achub i ddringo o amgylch y pentir (llwybr garw iawn) i'r Maes Golff. Yma gallwch gerdded yr holl ffordd o'i amgylch ar Lwybr Arfordir Cymru ar hyd yr arfordir i Abergeirch.

**Y Llwybr Byrrach:** Croeswch y ffordd i'r llithrffordd a dilynwch Lwybr Arfordir Cymru i fyny'r stepiau, yna ewch drwy'r maes parcio i'r ffordd a throi i'r dde a dilyn y ffordd i'r Clwb Golff. Ewch drwy'r giât mochyn ar ochr dde'r rhwystr a cherdded i lawr y ffordd darmac (ar draws y cwrs) i'r Sied Cynnal a Chadw. Yma mae arwydd llwybr troed yn eich arwain i'r chwith ar draws y glaswellt chwarae ac yna i'r dde i ail ymuno â Llwybr Arfordir Cymru sy'n dilyn ymyl y Cwrs Golff. Ar y pen, mae'r llwybr yn plymio i lawr at y lein beipiau yn Abergeirch.

Nawr mae'r daith yn dilyn llwybr arfordirol gwych am 3 milltir dda. Yn y diwedd byddwch yn cyrraedd ardal gyda safle carafanau o'ch blaen. Dyma Dowyn, ac o'r fan yma mae llwybr troed i bentref Tudweiliog.